agoriadcyf
realising your potential
gwireddu eich potensial

# Work Programme
# Rhaglen Waith

The **Work Programme** is not delivered in isolation: it is supported by a more flexible advisory service in Jobcentre Plus, which gives local offices more control to allow them to deliver in a way that is responsive to local needs.

It is estimated that the Work Programme will help more than 65,000 people across Wales on their journey back to work over the next seven years.

Agoriad is the appointed Provider for the Work Programme in Gwynedd and Anglesey and will offer:

**Personalisation** - a personal profile and into work plan, drives each client's individually tailored journey through Agoriad's Work Programme. Creating a thorough understanding the into work plans enables customers to be matched to the right job for the right employer.

**Understanding the Employer** - a clear strategy for engaging with local and national employers, with Agoriad building relationships and understanding the needs of the business community.

**Enhanced in Work Support** - Agoriad will provide clients with a tailored package of long term in work support as a minimum service commitment, with our sustainability assessment ensuring that potential in work support needs are addressed from the very start of employment.

The Work Programme offers employment support to unemployed people, regardless of the benefit that they claim and provides support to help them move into employment. Claimants are referred to the Work Programme at various points of their claim, depending on what benefit they get.

- *JSA (Job Seekers Allowance) claimants aged 25 or over - from 12 months.*
- *JSA claimants aged 18 to 24 - from 9 months.*
- *JSA claimants facing significant disadvantage (e.g. NEETs, ex-offenders) - from 3 months (early access).*
- *JSA claimants who have come off Incapacity Benefit - from 3 months.*
- *All ESA (employment support allowance) claimants - can volunteer for the programme at any time.*
- *ESA (income related) claimants in the work related activity group - when they are expected to be fit for work within 3 months.*
- *All Income Support and Incapacity Benefit claimants - can volunteer for the programme at any time.*

Agoriad works in partnership with the National Agency, Working Links to deliver the Work programme to Gwynedd and Anglesey.

www.workinglinks.co.uk

Nid yw'r **Rhaglen Waith** yn gorfod sefyll ar ei phen ei hun; caiff ei chefnogi gan wasanaeth cynghori hyblyg gan y Ganolfan Byd Gwaith, sy'n rhoi mwy o reolaeth i swyddfeydd lleol i'w caniatáu i ymateb yn fwy uniongyrchol i anghenion lleol. Amcangyfrifir y bydd y Rhaglen Waith yn rhoi cymorth i dros 65,000 o bobl ar draws Cymru ar eu siwrnai yn ôl at waith yn ystod y saith mlynedd nesaf.

Penodwyd Agoriad yn ddarparwr y Rhaglen Waith yng Ngwynedd ac Ynys Môn, a bydd yn cynnig:

**Personoli** - proffil personol a chynllun taith i waith yw crynswth y pecyn sydd wedi'i deilwrio'n arbennig ar gyfer pob cleient unigol drwy gyfrwng Rhaglen Waith Agoriad. Drwy greu dealltwriaeth drwyadl, mae'r cynllun taith i waith yn galluogi paru'n cwsmeriaid â'r swydd iawn i'r cyflogwr cywir.

**Deall y Cyflogwr** - strategaeth glir ar gyfer ymwneud â chyflogwyr lleol a chenedlaethol, gydag Agoriad yn adeiladu perthynas a dealltwriaeth o anghenion byd busnes.

**Cefnogaeth estynedig mewn swydd** - Bydd gwasanaeth Agoriad yn ymrwymo i ddarparu pecyn wedi'i deilwrio o gefnogaeth tymor hir mewn swydd i'w gleientiaid o leiaf. Bydd ein hasesiad cynhaliaeth yn sicrhau fod yr angen posib am gefnogaeth mewn swydd yn cael sylw o gychwyn cyntaf y cyfnod mewn gwaith.

Mae'r Rhaglen Waith yn cynnig cefnogaeth mewn swydd i bobl ddi-waith heb roi ystyriaeth i fudd-daliadau a dderbynnir ganddynt, gan roi cefnogaeth iddynt. Caiff ceisyddion eu cyfeirio at y RhaglenWaith ar wahanol adegau yn ystod eu cais, gan ddibynnu pa fudd-dal a dderbynnir ganddynt.

- *Lwfans Ceisio am Waith - ceisyddion 25 oed neu hŷn - ar ôl 12 mis.*
- *Lwfans Ceisio am Waith - ceisyddion 18-24 oed - ar ôl 9 mis.*
- *Lwfans Ceisio am Waith - ceisyddion sy'n wynebu anfanteision sylweddol (e.e. NEET [pobl nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant], cyn-droseddwyr) - ar ôl 3 mis (mynediad buan).*
- *Ceisyddion Lwfans Ceisio am Waith sydd bellach ddim yn derbyn Budd-dal Analluogrwydd - ar ôl 3 mis.*
- *Gall pob ceisydd am Lwfans Cyflogaeth a Chymorth gynnig ei hunan ar gyfer y rhaglen unrhyw bryd.*
- *Ceisyddion Lwfans Cyflogaeth a Chymorth (seiliedig ar incwm) sydd yn y grŵp gweithgaredd gwaith, lle mae disgwyl i'r cleient fod yn ddigon iach i weithio o fewn 3 mis.*
- *Gall pob ceisydd Cymhorthdal Incwm a Budd-dal Analluogrwydd gynnig ei hunan ar gyfer y rhaglen unrhyw bryd.*

Mae Agoriad yn gweithio mewn partneriaeth gyda'r asiantaeth genedlaethol, Working Links, er mwyn darparu'r Rhaglen Waith i Wynedd ac Ynys Môn.

www.workinglinks.co.uk

working links